Cynllunio Pontio - Canllawiau i Bobl Ifanc

14+

Trawsnewid (Pontio)
Beth nesaf?

Rhif Elusen Gofrestredig: 1027599 / Rhif Cwmni Cyfyngedig: 2832114
Noddwyr: Glenys Kinnock ASE / Dr Phillipa Russell CBE / Richard Mylan
Rydym yn cael ein cefnogi gan y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd a Llywodraeth Cynulliad Cymru

1 Beth yw Trawsnewid?

Mae trawsnewid yn golygu newid. Bydd pobl yn siarad â chi ynghylch trawsnewid pan fyddwch ym Mlwyddyn 9 neu'n 14 oed. Fe fyddan nhw'n rafod â chi y dewisiadau sydd gennych chi ac ynghylch y newidiadau a allai ddigwydd.

2 Eich Cyfarfod

Eich cyfarfod chi yw hwn. Efallai y bydd rhai o'r bobl yma yno i drafod gwneud cynlluniau â chi:

- Chi, os dymunwch chi
- Eich rhieni neu'ch gofalwr
- Eich athro
- Ymgynghorydd Gyrfa Cymru
- Gweithiwr Cymdeithasol
- Eiriolwr, os dymunwch chi
- SNAP CYMRU – os dymunwch chi

3 Cofiwch!

Chi piau'r pontio, eich cyfle chi yw hyn i gymryd penderfyniadau ynghylch eich dyfodol. Eich cam nesaf. Gall cymryd penderfyniadau fod yn anodd i bawb, hyd yn oed i oedolion. Weithiau, bydd yn rhaid hyd yn oed iddyn nhw ofyn am help.

4 Pwy all eich helpu chi?

Efallai y bydd yn haws i chi gynllunio os oes yna bobl o'ch cwmpas y gallwch chi ymddiried ynddyn nhw i helpu. Gallwch hefyd gael cefnogaeth ymgynghorydd personol sy'n gweithio i Gyrfa Cymru. Neu gallwch siarad drosto'ch chi'ch hunan.

5 Dewisiadau ar ôl Blwyddyn 11

Gallwch ddewis:

- Aros yn yr ysgol
- Mynd i goleg
- Cael gwaith
- Meddwl am ddod yn annibynnol
- Gwneud peth hyfforddiant

6 Hunan Eiriolaeth

Hunan adfocatiaeth yw dysgu sut i siarad drosto'ch chi'ch hunan. Gall eich teulu a'ch ffrindiau eich helpu i wneud hyn. Ond efallai y byddech yn hapusach yn siarad â rhywun arall – mae'r person hwn yn cael ei alw'n Eiriolwr. Gallech hyd yn oed ymuno â grŵp hunan Eiriolaeth. Gall eich Gwasanaeth Gwybodaeth Teulu lleol, Gweithiwr Cymdeithasol, yr Ysgol a SNAP Cymru eich helpu i ddarganfod rhagor.

Amdano SNAP Cymru

Mae SNAP Cymru yn cyflwyno'r Gwasanaeth Partneriaethau a Rhieni yng Nghymru ac mae'n cynnig gwybodaeth gywir, cyngor di-duedd a chefnogaeth i deuluoedd plant a phobl ifanc a chanddynt neu a allai fod ganddynt Anghenion Addysgol Arbennig a/neu nabledd. Mae gwasanaeth SNAP Cymru yn rhad ac am ddim, yn gyfrinachol ac yn ddi-duedd. Mae SNAP Cymru hefyd yn cynnig gwasanaeth datrys anghydfodau ffurfiol ac eiriolaeth annibynnol fater wrth fater i blant a phobl ifanc.

Llinell gymorth
0845 120 3730
www.snapcymru.org

SNAP Cymru, 10 Coopers Yard,
Ffordd Curran, Caerdydd CF10 5NB
Ffôn 029 2038 4868 Ffacs: 029 2034 8998

FundRaising Standards Board
BUDDSODDWR MEWN POBL INVESTOR IN PEOPLE
INVESTING IN VOLUNTEERS
Galw Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol
Community Legal Service